
Theatr Iolo

# Pwnc Tri
# Y Plot

**Un diwrnod...ac wedyn...yn y diwedd**



# Y Plot

Y plot yw'r cyfres o ddigwyddiadau sydd yn llenwi dy drama. Mae o'n debyg i gadwen o fwclis sy'n cysylltu ac yn ein harwain drwy'r stori.

Mewn drama, mae'n rhaid bod yna o leiaf un cymeriad. Mae bywyd y cymeriad yma yn newid (fel arfer yn sydyn ac yn annisgwyl) mewn rhyw ffordd. Mae cyfres o bethau yn digwydd, oherwydd y newid yma. Weithiau mae hyn yn golygu bod y prif gymeriad yn mynd ar daith go-iawn a weithiau ddim.Y naill ffordd neu'r llall, fe ddylai bod rhywbeth yn y sefyllfa yn wahanol iawn erbyn  diwedd y ddrama. Ac fel ddylai'r prif gymeriad fod wedi newid mewn rhyw ffordd hefyd.

Y gyfres o weithredoedd neu bethau sy'n digwydd ac yn newid bywyydau y cymeriadau, yw plot y ddrama.

## Er enghraifft

Dychmyga fore cyffredin mewn cartref teulu lle 'rwyt ti am sgwennu golygfa dros frecwast

- Mae'r teulu i gyd yn brysur, yn llowcio tôst a grawnfwyd, cyn rhuthro i'r ysgol a gwaith.
- Falle bod dau o'r plant yn ffraeo am rywbeth – pwy sy'n cael gweddill y paced grawnfwyd er enghraifft. Mae hyn yn awgrymu yn syth bod y ddau wastad yn ffraeo.
- Falle bod 'na awgrym bach o newid neu rywbeth ychydig yn anghyffredin. Efallai bod y dyn tywydd ar y teledu yn son am storm od sy'n mynd i ddigwydd.

**Mae'r prif ffocws yma ar gyflwyno a dangos y cymeriadau yn glir inni, a sefydlu beth yw eu harferion arferol.**



# The Catalydd

Y **Catalydd** yw'r sbarc sydd yn cynnau digwyddiadau'r ddrama.

Gan ddechrau ar ddiwrnod cyffredin, mae rhywbeth gwahanol yn digwydd. Rhywbeth sydd yn newid bywydau ambell un neu bob cymeriad yn y ddrama. Y peth gwahanol yma sydd yn cynnau tân y ddrama.

Falle bod 'na rywbeth dieithr neu anghyffredin wrth y drws ? Neu rywun annisgwyl?:

- Twll enfawr
- Jiraff
- Tadcu sy'n byw gan milltir i ffwrdd
- Hoff ganwr Mam
- Person glanhau simnai
- Bocs o gacennau hufen
- Pâr o sanau coch drewllyd



Dewisa un o'r enghreifftiau yma ac heb feddwl gormod am y peth, sgwenna beth sy'n digwydd nesaf.

Sgwenna am dri munud heb stop (neu tynna luniau neu recordio dy hun yn dweud y stori os ydi hi'n well gen'ti)

**<u>GAIR O GYNGOR:</u> Yr eiliad y dechreui di ofyn cwestiynau am y digwyddiad, mae pob math o bosibiliadau a dewisiadau yn codi.**

## Er enghraifft

Petai ti'n dewis y jiraff, falle mai dy gwestiwn cyntaf fyddai – Pam fyddai 'na jiraff yn nrws ffrynt tŷ rhywun?

- Falle bod o wedi dianc o'r sw?
- Falle bod o wedi teithio o Affrica oherwydd fod o'n rhy boeth a glanio ar hap yma?
- Falle bod o'n gorfod cyflawni rhyw dasg ac eisiau help?

Mae pob un posibiliad yn tanio cyfres o ddigwyddiadau sy'n golygu fod rhaid i'r cymeriadau i gyd wneud dewisiadau, ond yn fwyaf arbennig y prif gymeriad(au).

## Er enghraifft

Beth petai'r jiraff yn crefu am gael aros yn y tŷ yn lle cael ei yrru yn ôl i Affrica. Roedd o am aros oherwydd bod hi'n oerach yn y tŷ a bod ei hoff goed yn tyfu yn yr ardd.

Sut fyddai hi'n bosib i deulu guddio jiraff rhag yr heddlu ac awdurdodau eraill? A fyddai nhw angen torri twll yn y to ar gyfer ei wddf? Neu adeiladu sied arbennig lle gallai o fyw? Beth os oedd 'na botsiar drwg oedd yn casglu esgyrn jiraff i'w rhoi uwchben y lle tân?

**Rho gynnig ar greu dy gatalydd (sbarc) dy hun...**
**Cymer gip trwy'r ffenest, beth alli di weld? Ydi popeth yn edrych yr un fath ag arfer?**

- Beth petai un o'r cymdogion yn dechrau gweiddi arnat ti?
- Beth petai 'na ddamwain car ar y lôn.
- Beth petai'r ferch gyferbyn yn dechrau dawnsio yn y ffenest?

Gall fod y newid yn fawr neu bach, ond mae o angen bod yn wahanol i'r hyn sy'n digwydd fel arfer.


# Siâp dy stori

Mae'r mwyafrif o straeon yn rhannu siâp neu batrwm arbennig.

- Rhaid i'r prif gymeriad wynebu rhwystrau a digwyddiadau dieithr, brawychus neu anodd.
- Mae'r broses o wynebu a churo'r rhwystrau yn newid a datblygu y prif gymeriad(au).
- Yn ddelfrydol byddant yn sylweddoli pethau pwysig amdanyn nhw a'r byd

Fel arfer gelli di siapio drama o gwmpas **tair act** neu flociau o ddigwydd. Mae hyn yn golygu bod pethau fel arfer yn gwaethygu cyn sortio'u hunain yn y diwedd. Yn aml, mae'r pwynt gwaethaf i'r prif gymeriad yn digwydd tua diwedd y ddrama, lle bydd popeth yn teimlo yn anobeithiol. Ond rhywsut neu'i gilydd bydd pethau yn datrys, unai er gwell neu er gwaeth.

Mae pob drama angen **Dechrau Canol a Diwedd.**




- **Dechrau** yw'r sbarc sy'n tanio'r stori
- **Canol** yw'r cyfres o ddigwyddiadau/taith mae'r cymeriad yn gorfod wynebu
- **Diwedd** sydd yn dangos sut mae'r prif gymeriad (a'r byd) wedi newid.

**GAIR I GALL: Ynghanol y ddrama mae'r newidiadau mwyaf yn digwydd a'r prif gymeriad yn wynebu'r pethau anoddaf. A hefyd dyma lle mae'r cymeriad yn dod i ddeall a dysgu amdano ei hun.**

Dychmyga dy fod ti eisiau sgwennu am ferch ifanc sydd yn hunanol iawn.

Ar y dechrau tydi hi'n meddwl am neb ond hi ei hun, ond erbyn y diwedd mae hi'n meddwl am bobl eraill hefyd.

- **Dewisa dri pheth** y mae'r ferch yma eu heisiau yn ofnadwy. (Dylai o leiaf un o'r pethau mae hi eu heisiau fod yn ddewis hunanol)
- **Meddylia am sbarc**, rhywbeth sy'n digwydd sy'n wahanol iawn i'r arferol.
- **Noda 5 digwyddiad** yn y stori. Dim ond **oherwydd** y peth blaenorol gall pob gweithred ddigwydd .
- **Dewisa ddiweddglo** ble mae'r ferch ifanc wedi sylweddoli nad ydi bod yn hunanol yn beth da. Falle gwneith yr holl bethau 'roedd hi'n **meddwl** bod hi eisiau yn ofnadwy ,newid hefyd.

A dyma ti wedi creu stori gyda dechrau, canol a diwedd gyda chyfres o ddigwyddiadau a gweithredoedd. Nawr, 'rwyt ti angen gwneud cyfres o olygfeydd gyda chymeriadau gwahanol allan o'r stori yma.

# Bachau

Mae’r plot yn gyfres o ddigwyddiadau sy’n dilyn eu gilydd nes maen nhw’n cyrraedd diweddglo, sydd unai yn llwyddiant neu fethiant. Mae’n rhaid i bob digwyddiad fachu yn ei gilydd. Mae un digwyddiad yn **achosi** y nesaf. Mae o’n debyg i dominôs yn disgyn...

Dychmyga dy fod ti am greu drama am sosban.



Mae’r sosban yma yn dechrau ei bywyd yng nghegin Dy

- Dewisa bump person gwahanol oedd biau’r sosban a sgwenna stori fach sy’n mynd gyda phob un.
- Sut a pham mae’r sosban yn symud o un person i’r llall?
- Beth mae’r sosban wedi sylweddoli am ei bywyd erbyn iddi ddod yn ôl i’r gegin wreiddiol ar y diwedd?



**GAIR I GALL: Mae’r bachau yma yn y stori yn bwysig iawn achos mae’n rhaid inni gredu yn y ffordd mae un rhan o’r plot yn symud i’r nesaf.**



## Mathau o Ddramau:

Dyma rai enghreifftiau o'r gwahanol fathau o ddramau y  gallet ti eu sgwennu:



**GAIR I GALL: Mae'r arddull neu'r math o ddrama 'rwyt ti'n sgwennu yn dylanwadu ar y cwestiynau fydd yn codi a'r atebion 'rwyt ti'n eu cynnig.**

**Trasiedi:** Dyma ddram sy'n gorffen gyda'r prif gymeriad yn colli popeth, a falle'n marw hyd yn oed. 'Tydi'r plot ddim yn hapus iawn, ond mae'r cymeriadau fel arfer yn dysgu rhywbeth pwysig amdanyn nhw eu hunain yn y broses.
**Comedi:** Dyma ddrama sy'n gwneud i bobl chwerthin, fel arfer oherwydd bod y cymeriadau yn dwp neu'n 'styfnig neu ddim yn gallu gweld y gwir. Mae'r plot yn gallu golygu bod pawb yn gymysglyd ac wedi drysu am sbel, ond fel arfer mae'n gorfffen gyda phopeth yn cael ei sortio allan fel bod pawb yn hapus yn y diwedd.
**Dirgelwch:** Dyma ddrama lle mae pobl yn ceisio deall beth sydd wedi digwydd (a pam y digwyddodd )Mae'r plot yn troi o gwmpas prif gymeriad sydd yn datgloi dirgelwch neu dod i ddeall pwy sydd wedi cyflawni trosedd (gwneud rhywbeth drwg) a pam.
**Quest:** Dyma ddrama sy'n herio'r prof gymeriad ar y dechrau ble mae'n rhaid iddyn nhw fynd ar daith beryglus a churo rhwystrsau er mwyn ennill gwobr ar y diwedd
**Ffantasi:** Dyma ddrama sy'n digwydd yn rhannol neu'n gyfangwbl mewn byd arall gyda rheolau gwahanol i'n byd ni. Falle bydd y plot yn cynnwys hud a'r goruwchnaturiol. Hefyd, mae'n gallu bod yn stori cymeriad sy'n gadael ein byd am antur mewn byd gwahanol cyn dychwelyd adref.



**Rho gynnig ar un o'r mathau o ddrama ym sgwennu am y cymeriad canlynol...**

Mae Siân yn dairarddeg oed. Mae hi'n byw gyda'i mam a'i chwaer yn Sblot, yng Nghaerdydd. Mae hi'n caru pêl-droed ac yn breuddwydio am chwarae i Cardiff City. Pob dydd mae hi'n ymarfer yn y parc o flaen y tŷ. Mae hi'n uchelgeisiol iawn ac mae pêl-droed yn fwy pwysig iddi na phawb a phopeth. Ond un diwrnod....

Dewisa sbarc, rhywbeth wneith newid byd Siân a gwneud iddi ddilyn trywydd newydd. Mae'n amhosib iddi anwybyddu'r sbarc, felly beth mae'n ei ddewis i wneud?
Noda pump peth sy'n digwydd, sy'n cysylltiedig.
Erbyn diwedd y pump pwynt plot yma, beth mae Siân wedi dysgu amdani hi ei hun?
**Rho gynnig ar sgwennu'r un stori ond mewn arddull wahanol.**

# I Grynhoi:

Y plot yw'r cyfres o ddigwyddiadau sy'n llenwi'r stori.

Y catalydd neu'r sbarc yw'r digwyddiad anghyffredin sy'n cychwyn y stori.

Mae gan ddrama ddechrau canol a diwedd. Yng nghanol y ddrama y bydd mwyaf o berygl a her i'r prif gymeriad.

Mae pob digwyddiad yn cysylltu mewn rhyw ffordd, gydag un yngwneud i'r nesaf ddigwydd.

Mae'r prif gymeriad fel arfer (ern id bob tro) yn dysgu rhywbeth pwysig amdanyn nhw eu hunain a'r byd erbyn diwedd y ddrama. A dylie bod nhw wedi newid mewn ffordd eithaf dyfn a phwysig.

